Care & Repair Cymru

COVID-19
Gwybodaeth Bwysig

Gweithio yn eich cartref, a'chcadw yn ddiogel rhag coronafeirws

Gwella cartrefi, Newid bywydau

Care & Repair Cymru is a registered charity:
Charity number 1163542

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

COVID-19
Gwybodaeth Bwysig

Pam ei bod yn bwysig fod Gofal a Thrwsio yn dal ati i weithio

Mae Gofal a Thrwsio yn darparu gwasanaethau a chefnogaeth sy'n helpu pobl hŷn i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Yn ystod y pandemig Coronafeirws bu pobl yn treulio mwy o amser adref, ac felly mae mwy o angen ein help nag erioed. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd yn dewis hunanynysu, os oes ganddynt symptomau neu ar y rhestr warchod oherwydd eu bod yn cael eu hystyried yn fregus iawn ac wedi derbyn llythyr yn eu cynghori i beidio gadael eu cartref o gwbl.

I helpu diogelu eich iechyd, diogelwch a lles, mae'n bwysig ein bod yn parhau i weithredu a'ch cefnogi gyda gwaith hanfodol tebyg i waith addasu (pethau fel lifftiau grisiau, cawodydd cerdded-i-mewn gyda mynediad gwastad, canllawiau a rampiau a gwaith atgyweirio hanfodol (tebyg i ddiogelwch trydanol, plymio a draeniad, nwy, lleithder, toeau a ffenestri'n gollwng, a gwneud cartrefi yn ddiogel i fyw ynddynt.

Mae ein gweithwyr yn 'weithwyr allweddol' yn ôl diffiniad Llywodraeth Cymru ac felly gallwn ddal ati i ddarparu ein gwasanaethau mewn cymunedau a chartrefi, gan ein bod yn helpu i gadw pobl hŷn yn ddiogel ac yn iach. Deallwn y gallwch fod yn bryderus am weithwyr yn dod i'ch cartref, felly mae'r wybodaeth hon i'ch sicrhau y bydd y ffordd y gweithiwn yn eich diogelu chi a'ch teulu, yn ogystal â chadw ein gweithwyr Gofal a Thrwsio yn ddiogel.

Bydd y ffordd y gweithiwn yn eich diogelu chi, eich teuluoedd a'n gweithwyr rhag lledaenu'r Coronafeirws

Cyfarpar Diogelu Personol

Ar draws Cymru, rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau fod y Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) cywir gan ein holl staff. Mae ein canllawiau PPE yn dweud wrth ein gweithwyr am y gwahanol fathau o PPE y dylent ei ddefnyddio mewn sefyllfaoedd gwahanol, felly bydd ein staff bob amser yn defnyddio'r PPE cywir i'ch diogelu chi a hwythau. Mae ein canllawiau hefyd yn cynnwys arferion gweithio diogel a phrosesau hylendid, a byddwn yn cadw'n llym at reolau ymbellhau cymdeithasol.

Rydym wedi datblygu ein canllawiau PPE gan roi ystyriaeth i gyngor a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Llywodraeth Cymru, ac rydym yn eu hadolygu'n barhaus. Mae angen hyn i gyd i'n helpu i wneud ein gwaith, gan eich diogelu chi rhag y feirws ac osgoi lledaenu heintiad.

Nid oes angen bod yn bryderus ein bod yn gwisgo offer diogelu tebyg i fasgiau a menig. Rydym yn dilyn canllawiau iechyd cyhoeddus a'r llywodraeth sy'n helpu i'ch cadw chi a hefyd ein gweithwyr yn ddiogel.

COVID-19
Gwybodaeth Bwysig

Beth fedrwch chi ei ddisgwyl gennym?

- Byddwn bob amser yn ffonio ymlaen llaw i siarad gyda chi am p'un ai ydych yn hunanynysu neu ar y rhestr warchod, trafod eich pryderon, a dweud wrthych beth i'w ddisgwyl a sut i baratoi ar gyfer pryd byddwn yn ymweld â chi yn eich cartref.

- Byddwn yn defnyddio'r Cyfarpar Diogelu Personol cywir.

- Byddwn yn cadw pellter cymdeithasol llym a bob amser yn cadw o leiaf 2 fetr oddi wrthych chi ac unrhyw un sy'n byw gyda chi yn eich cartref.

- Byddwn yn glanhau a diheintio pob dyfais symudol yn rheolaidd.

- Byddwn yn cael gwared yn ddiogel â PPE drwy ei roi mewn bag o fewn bag arall a mynd ag ef o'ch cartref i ni gael gwared ag ef yn ddiogel.

- Byddwn yn gwrando ar eich pryderon ac yn parchu eich dymuniadau.

Tra'n bod yn gwneud gwaith yn eich cartref:

- Byddwn yn diheintio ein hoffer a'n cyfarpar ac ni fyddwn yn dod ag unrhyw beth diangen i'ch cartref tebyg i fagiau gwaith, gwaith papur neu offer nad ydynt yn cael eu defnyddio.

- Byddwn yn diheintio cyfarpar ar offer bob tro ar ôl ei ddefnyddio, un defnyddio glanedydd a dŵr neu weips diheintio.

- Byddwn yn sychu a glanhau'r ardal waith gyffredinol pan gyrhaeddwn a phan fyddwn yn gadael eich cartref, naill ai gyda glanedydd a dŵr poeth neu weips diheintio priodol.

- Byddwn yn sychu mannau allweddol yn ein cerbydau yn rheolaidd gyda diheintydd a dŵr neu weips diheintio os nad oes diheintydd a dŵr ar gael.

W Beth sydd angen i chi wneud?

1. Pan fyddwn yn ffonio cyn i ni gyrraedd, gofynnwn i chi ddweud wrthym os ydych ar y rhestr warchod oherwydd i chi dderbyn llythyr swyddogol yn dweud wrthych am aros adref, os ydych yn teimlo'n wael neu fod gennych symptomau (yn arbennig dymheredd uchel, peswch newydd parhaus neu wedi colli eich synnwyr arogl neu flasu), neu os ydych wedi penderfynu hunanynysu adref fel mesur gofalu eich hunan. Bydd yr wybodaeth hon yn ein helpu i benderfynu pa PPE mae angen i ni ei ddefnyddio.

2. Agor eich ffenestri a sicrhau fod eich cartref wedi awyru'n dda cyn i ni gyrraedd.

3. Gofyn am gael gweld ein cerdyn adnabod. Mae'n bwysig i chi wneud hyn bob amser cyn i chi adael i unrhyw un ddod i mewn i'ch cartref.

4. Cadw pellter diogel o 2 fetr o leiaf i ffwrdd o'n gweithwyr bob amser.

5. Os gallwch, ar ôl i ni drafod y gwaith y byddwn yn ei wneud, aros mewn rhan arall o'r tŷ i ble y caiff y gwaith ei wneud.

6. Peidio â theimlo'r angen i gynnig unrhyw luniaeth i'n gweithwyr, byddant yn deall yn iawn pam.

7. Siarad gyda ni am unrhyw bryderon sydd gennych, hyd yn oed tra'r ydym yn eich cartref.

8. Yn bwysicaf oll, cofio cadw pellter cymdeithasol da o leiaf 2 fetr i ffwrdd o'n gweithwyr.

Mae'n bwysig dal i wneud yn siŵr nad yw eich cartref yn niweidio eich iechyd, llesiant ac annibyniaeth. Mae Gofal a Thrwsio yn dal i fod yma i'ch helpu i wneud hyn ac rydym wedi newid ein ffordd o weithio i'ch helpu chi a ninnau i gadw'n ddiogel tra'n helpu i atal lledaeniad coronafeirws.

Gobeithiwn y bydd yr wybodaeth yma yn help ac yn rhoi sicrwydd i chi. Os ydych yn dal i fod â chwestiynau neu bryderon, cofiwch adael i ni wybod pan fyddwn yn ffonio. Byddwn yn hapus i drafod hyn gyda chi a gwneud yn siŵr eich bod yn gysurus gyda ni yn ymweld â'ch cartref a gweithio yno.

Care & Repair Cymru

www.careandrepair.org.uk

dewch o hyd i ni ar

Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

Trident Court, Llawr 1af, Tŷ Mariners,
Heol East Moors, Caerdydd
CF24 5TD

Gwella cartrefi, Newid bywydau

COVID-19
Gwybodaeth Bwysig

Care & Repair Cymru is a registered charity:
Charity number 1163542